# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

**Mawrth 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 6**

# Project offer chwarae hygyrch

Awgrymwyd y project hwn gyntaf gan Vicky Owen a soniodd wrth y Cyngor Cymuned am ei merch, Ruby, a'r heriau mae hi'n eu hwynebu. Mae Ruby yn cael anhawster i ddefnyddio'r offer chwarae yng Nghae Nant, felly aeth y Cyngor Cymuned ati i chwilio am ffordd i wella'r parc er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn, beth bynnag yw eu gallu, i chwarae yng Nghae Nant. Cafwyd grantiau gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog a'r Loteri, a chyfraniad hael gan MHC ac mae offer wedi'u dewis, gyda chyngor a help Vicky. Y gobaith yw y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill. Y bwriad hefyd yw rhoi ffens liwgar o gwmpas y cae chwarae i gadw pawb yn ddiogel. Yn y llun isod mae'r Cyngor Cymuned gyda Vicky Owen (ar y dde) yn ymweld â Chae Nant.



Mae'r cyngor yn hynod ddiolchgar am arian a chymorth gan:

- Y Loteri Genedlaethol
- Grantiau Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog
- MHC Highfield Park
- Self-Storage 4U
- Stand North Wales CIC

Bydd y project hwn yn helpu i sicrhau bod holl blant a phobl ifanc ein cymuned yn cael cyfle i chwarae gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, croesawgar.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

CRONFA FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG • CLOCAENOG FOREST WIND FARM FUND



**Dydd Gŵyl Dewi hapus!**



# Newyddion y pentre

Pen blwydd hapus i Dorothy Lloyd (Williams gynt), gynt o Gales Bach, yn 90 oed. Mae Dorothy yn hen fodryb i Fiona Bell, ac yn adnabyddus fel un o 'Ferched Gales'. Pen blwydd hapus hefyd i Iona Salisbury a fydd yn 91 oed y mis hwn.

Rydyn ni'n falch o glywed bod Liz Bennett yn gwella'n dda ar ôl syrthio a thorri ei chlun. Ar ran ei gŵr, Ally, diolch i bawb a fu'n helpu ar y pryd ac sydd wedi bod yn rhoi cymorth iddyn nhw ers hynny.



Llongyfarchiadau i Richard Williams, Plas Bennett, ar chwarae ei ganfed gêm i dîm cyntaf Clwb Rygbi Rhuthun.

## Bore coffi

**Dydd Sadwrn, 14 Mawrth, 10-11.30 yn Neuadd y Pentre**

Yr elw at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan

Croeso cynnes i bawb!

## Cyngor Sir Ddinbych



**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*



Llongyfarchiadau hefyd i Lloyd Mason, Tŷ Capel Isaf, a fydd yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop gyda Banc Ieuenctid Biwmaris. Mae'n ddrymiwr gyda'r band a bydd yn teithio i Linz, Awstria ym mis Ebrill i gystadlu.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm

Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun $2^{il}$ | Grŵp gweu | 10am |
| | Trefoil Guild | 2pm |
| Maw $3^{ydd}$ | Grŵp Cyfeillgarwch | 2pm |
| | Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 7pm |
| Mer $4^{ydd}$ | Peintio a phaned | 12–3pm |
| Gwe $6^{ed}$ | Grŵp cwiltio | 1.30 |
| Llun $9^{fed}$ | Grŵp gweu | 10am |
| Mer $11^{eg}$ | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun $16^{eg}$ | Grŵp gweu | 10am |
| Maw $17^{eg}$ | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Llun $23^{ain}$ | Grŵp gweu | 10am |
| Mer $25^{ain}$ | Peintio a phaned | 12–3pm |
| Gwe $27^{ain}$ | Gweithdy torchau byw | 10am |
| Sad $28^{ain}$ | Gweithdy torchau byw | 10am |
| Llun $30^{ain}$ | Grŵp gweu | 10am |

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| Sul 1 | 11.15 | Boreol Weddi |
| Sul 8 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| Sul 15 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 22 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 29 | 11.15 | Gwasanaeth Sul y Blodau |

Bydd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn digwydd yng Nghapel y Dyffryn, dydd Gwener, 6 Mawrth am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun $2^{il}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer $4^{ydd}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $7^{fed}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Sul $8^{fed}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun $9^{fed}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $10^{fed}$ | Clwb Garddio | 7–9pm |
| Mer $11^{eg}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $14^{eg}$ | Bore coffi – yr eglwys | 10–11.30am |
| Llun $16^{eg}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $17^{eg}$ | Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Dyffryn Clwyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 6–9pm |
| Mer $18^{fed}$ | Y Gymdeithas Hanes: Cyn-ddisgyblion Ysgol Sirol Dinbych/ Rhyfel Mawr 1914–18 | 7–9pm |
| Llun $23^{ain}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $24^{ain}$ | Cyfarfod pwyllgor y Clwb Merlod | 7–9pm |
| Mer $25^{ain}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun $30^{ain}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $31^{ain}$ | Y Clwb Seryddiaeth | 7–9pm |

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Boreau coffi

Hoffai tîm y *Llais* ddiolch i bawb a ddaeth i'r bore coffi ar 31 Ionawr a gododd dros £400. Bydd hyn o gymorth mawr i dalu am ein costau argraffu.

Ar 21 Chwefror cafwyd bore coffi yn neuadd y pentref i STAND – *Stronger Together for Additional Needs and Disabilities*, sy'n cefnogi plant anabl a'u teuluoedd ac sydd wedi bod yn rhoi cyngor gwych ar gyfer prosiect offer chwarae Cae Nant. Cododd y bore coffi ei hun £702.40. Fodd bynnag, gyda'r arian ychwanegol a gyfrannwyd ar ôl y digwyddiad, bydd STAND yn cael cyfanswm o £955 – swm gwych, hyd yn oed yn ôl safonau Llandyrnog.

STAND
NORTH WALES CIC
Stronger Together for Additional Needs & Disabilities

# Trefoil Guild

Daeth yr aelodau at eraill yn y sir yn yr Wyddgrug i ddathlu'r Diwrnod Meddwl a chan mlynedd o WAGGGS – *World Association of Girl Guides and Girl Scouts*. Fe gawson ni wasanaeth byr a goleuo canhwyllau i gofio am wledydd o gwmpas y bydd. Roedd casgliad ar gyfer WAGGGS ac wedyn paned a chacen. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco pan fyddwn yn meddwl am Dewi Sant.

WARM WALES
CYMRU GYNNES

**Siop Gymunedol Llandyrnog**
**Llandyrnog Community Shop**

**Tan 27 Mawrth**
Diod boeth a thost i oedolion
sy'n chwilio am gwmni
mewn man diogel a chynnes

# Y Gymdeithas Hanes

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn neuadd y pentref nos Fercher, 18 Mawrth am 7pm, a bydd siaradwr poblogaidd iawn, Dr Paul Evans, yn dychwelyd. Cyn iddo ymddeol, Dr Evans oedd Pennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych, a'r tro hwn, cyn-ddisgyblion Ysgol Sirol Dinbych yn ystod y Rhyfel Mawr 1914–18 fydd ei bwnc.

Bydd y sgwrs yn sôn am ddarganfod nifer fawr o lythyrau mewn storfa yn yr ysgol a ysgrifennwyd gan gyn-ddisgyblion a oedd yn ysgrifennu o ffosydd, ysbytai a gwersylloedd carchar. Anfonwyd y rhain mewn ymateb i blant o'r ysgol yn ysgrifennu at eu rhagflaenwyr ac yn anfon archeb bost atyn nhw werth 4 swllt a 6 cheiniog. Codwyd yr arian ar gyfer y rhain gan yr ysgol. Yn anffodus, ni chafwyd hyd i'r llythyrau a ysgrifennwyd gan y bechgyn at y milwyr.

Bu farw 22 o ddynion â chysylltiadau â Llandyrnog/Llangwyfan yn ystod y rhyfel hwnnw. Dydyn ni ddim yn gwybod a gawson nhw lythyrau ai peidio. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i'w stori yn y llyfr a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas – *Llandyrnog & Llangwyfan: Y Rhyfel Mawr 1914–18 The Great War*. Cewch brynu hwn yn siop y pentre neu yn Tŷ Ceffyl Bach am £14, neu drwy gysylltu â'r Gymdeithas ar llangwyfanhistory@hotmail.com.



# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Roedd hi'n noson gymylog a glawog adeg cyfarfod diwetha'r gymdeithas ym mis Chwefror, felly gwelson ni ddim byd. Ond dathlwyd pen blwydd Isaac Roberts (1829–1904 gyda darn o gacen. Cafwyd cyflwyniad ar y cytser Auriga a sgwrs ddiddorol ar un o'r arloeswyr ymhlith merched mewn gwyddoniaeth, Dorothea Klumpke Roberts. Hi oedd y ferch gyntaf i gael gradd uwch mewn seryddiaeth – camp a gyflawnodd yn 1893 ym Mhrifysgol Paris, gyda thraethawd estynedig am gylchoedd y blaned Sadwrn.





*Llŷr a'i delesgop*

Mae prif ddigwyddiadau mis Mawrth yn cynnwys Gwener yn agos at Neifion (7 Mawrth) – mae'n llachar iawn fel 'seren min nos', ac mae Gwener yn agos at y blaned Iau ar 20 Mawrth. Yn yr awyr fin nos, byddwch yn gallu gweld Orion, Taurus, Auriga, a Gemini.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ystafell isaf neuadd y pentre am 7 o'r gloch, nos Fawrth, 31 Mawrth. Mae gwledd i'r llygaid yn awyr y nos, felly daliwch ati i edrych i fyny!

Roedden ni'n falch iawn o un o'n haelodau, Llŷr, a gafodd gyfweliad ar Radio Cymru ar y rhaglen Bore Cothi. Sgwrsiodd am y gymdeithas, ein gweithgareddau, a beth sydd i'w weld yn yr awyr ym mis Chwefror.

Os hoffech chi wrando ar y sgwrs, chwiliwch ar eich porwr am 'Y bardd Llŷr Gwyn Lewis yn gweld sêr' (https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p0mxshck).

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann a Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Ffynnon Cynhafal



Soniodd erthygl Hazel Wright y mis diwetha am daith gerdded ddiddorol iawn sy'n mynd heibio adfeilion cartrefi yn y bryniau uwchben Llangynhafal. Ac fe aeth meddyliau tîm y *Llais* i grwydro ychydig, gan drafod adeiladau diddorol eraill yn yr ardal. Oeddech chi'n gwybod, er enghraifft, bod ffynnon sanctaidd yn y cyffiniau?

Mae Ffynnon Cynhafal ar dir cartref Gareth a Iona Pierce – Plas Dolben, Llangynhafal.

Yma, fe welwch gromgell wedi'i chodi o friciau, a adeiladwyd rywbryd yn y 19eg ganrif. Mae'r gell ryw 5 metr o hyd a 3 metr o led, gyda grisiau yn mynd i lawr i ddyfroedd tywyll y ffynnon.

Mae'r ffynnon ei hun wedi bod yno ymhell cyn y gromgell – mae hon wedi'i gwneud o flociau carreg galch hŷn o lawer, sy'n awgrymu mai bwriad codi adeilad dros y ffynnon wreiddiol, hynafol, oedd creu siambr danddaearol fwy o lawer.

Mae hyn yn awgrymu ei bod hi'n enwog iawn ac yn boblogaidd iawn, gan ei bod mor fawr a bod y rhai a oedd yn chwilio am wyrthiau i'w gwella yn gallu trochi eu corff yn gyfan gwbl yn y dŵr. Ac o ran ei gallu i wneud gwyrthiau, credir ei bod wedi gwella dafadennau, er bod maint y ffynnon yn awgrymu ei bod yn gallu gwneud mwy na hyn. Byddai pin yn pricio'r dafadennau, ac wedyn yn cael ei daflu i ddyfroedd y ffynnon.

Mae'n hwylus iawn i fynd ati o'r buarth, a phetaech chi'n gofyn i Iona pan mae hi'n gwirfoddoli yn y siop, mae'n siŵr y byddai'n fodlon iawn i chi ymweld â'r ffynnon.

Os oes gennych chi ddafaden, cofiwch fynd â phin gyda chi – a rhowch wybod i ni beth oedd y canlyniad!

Rydyn ni mor ffodus o gael cymaint o drysorau cudd ar stepen ein drws.



# Llaethdy Pentrefelin

Mae Huw Foulkes, Fferm Pentrefelin, wedi creu rhywbeth arbennig iawn. Caiff ei waith lawer o sylw ym myd ffermio, yn enwedig o ran systemau cynaliadwy a chynhyrchu llaeth sy'n canol bwyntio ar les yr anifeiliaid.

Mae Huw yn rhedeg micro-laethdy 'buwch -a-llo', sy'n golygu bod lloeau yn aros gyda'u mamau, sy'n cael eu godro unwaith y dydd i werthu'r llaeth yn lleol. Mae'n system sy'n canolbwyntio ar:

- pori dwysedd uchel ac adfywiol
- bridiau cynhenid sydd â dau bwrpas
- cynhyrchu llaeth sy'n gofalu am les y fuwch, a heb ddefnyddio llawer o adnoddau fel pla-laddwyr a gwrtaith synthetig
- gwerthu'n uniongyrchol i'r gymuned
- dull cymysg o ffermio, sy'n ofalus o'r amgylchedd

Byddai gan nifer o bobl ddiddordeb yn y math hwn o system flaengar, yn enwedig gan fod cymaint o ddiddordeb gan y cyhoedd mewn cynhyrchu bwyd, cynaliadwyedd, a ffermio lleol.

Hefyd, mae wedi agor siop fferm fach yn ddiweddar, sy'n haeddu ychydig o sylw a chefnogaeth yn lleol. Yn hon cewch brynu llaeth, iogwrt a chaws wedi'u cynhyrchu gan wartheg sydd wedi'u magu ar ddim byd ond glaswellt; wyau hwyaid; a ffrwythau a llysiau wedi'u tyfu mewn partneriaeth â Phil o Smithy Farm. Unwaith y mis, mae nifer cyfyngedig o focsys o biff o'r gwartheg Red Poll ar werth.

Cewch gerdded o gwmpas Pentrefelin gyda Huw yn eich tywys i weld sut mae arferion adfywiol a systemau da byw traddodiadol yn cynhyrchu bwyd â llawer o faeth ynddo, yn cyd-fynd â natur.

Mae Pentrefelin hefyd yn gartref i Hanes y Pridd – project addysg gymunedol o dan arweiniad LandLinked CIC sy'n trefnu gweithdai a chyrsiau. Mae Pentrefelin ei hun yn rhedeg cwrs micro-laethdy buwch a llo.

Ddiwedd mis Ionawr roedd Huw yn y Senedd, yn sôn am ei ddulliau ffermio ym Mhentrefelin ac yn benodol sut olwg sydd ar ffermio sy'n gofalu am natur.

Mae'r nod yn ddigon hawdd: gofalu am y pridd fel bod y gwartheg yn gallu dod yn eu blaenau'n dda, y tir yn ymdopi'n well â thywydd eithafol, a gall ddal ati i gynhyrchu bwyd da i'n cymuned leol.

Dywedodd Huw ei bod hi'n braf gweld ffermwyr, sefydliadau bwyd a phobl sy'n llunio polisïau i gyd yn yr un stafell, yn gwrando ar brofiad ffermio go iawn.




**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Dod i adnabod . . . Veronica Roberts



Cefais fy magu yn unig blentyn yn nhref fach Rhymni, ar ben Cwm Rhymni yn Sir Fynwy. Roedd Rhymni yn etholaeth Glyn Ebwy, a'n haelod seneddol lleol ar y pryd oedd Aneurin Bevan, sefydlydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cefais fy addysg gynnar yn Rhymni – a dweud y gwir roedd ein tŷ ni y drws nesa i'r ysgol gynradd, ac fe allwch chi fentro mai fi fyddai'r olaf i gyrraedd! Y dyddiau hynny, yn 1956, roedden ni i gyd yn gorfod sefyll yr arholiad 11-plus, ac roeddwn i'n ddigon ffodus i lwyddo i fynd i Ysgol Lewis i Ferched yn bellach i lawr y cwm. Roedd hyn yn golygu siwrne o hanner awr ar y trên. Roeddwn i'n gorfod cerdded milltir go dda i'r orsaf, a chredwch fi neu beidio, byddwn i'n rhedeg y rhan fwyaf ohoni i gyrraedd y trên mewn pryd!

Byddai'r daith i'r orsaf yn mynd drwy fuarth Bragdy Rhymni, un enwog iawn a'r mwyaf yn Ne Cymru, yn ôl rhai. Dechreuwyd bragu cwrw yno yn 1839 gydag Andrew Buchan yn rheolwr. Roedd y deuddeg llythyren o enw Andrew Buchan o gwmpas yr wyneb ar y cloc mawr ar y gatiau yn y buarth, yn lle'r deuddeg rhif. Roedd aroglau hopys cryf pan fyddech yn mynd heibio'r bragdy. Pan fu farw Andrew Buchan yn 1870 mae'n debyg mai dyna'r angladd mwyaf roedd Rhymni erioed wedi'i weld! Roedd yn fawr ei barch ac yn gymwynaswr mawr yn lleol.

O ran diddordeb, yn ystod y blynyddoedd roeddwn i yn Ysgol Lewis, roedd Neil Kinnock (cyn-arweinydd y Blaid Lafur) yn ddisgybl yn ysgol Lewis i Fechgyn ym Mhengam, a'r Dr Elin Jones, yr hanesydd, yn yr ysgol yr un pryd â fi.

Roedd y capel yn bwysig i mi wrth i fi dyfu i fyny, ac roedd ysgol Sul dda gan bron bob capel yn y dre. Roedd martsio drwy'r dre yn draddodiad i bob Ysgol Sul ar ddydd Llun y Sulgwyn. Byddai pob capel yn cerdded y tu ôl i'r llall, a ninnau i gyd yn ein dillad gorau ac yn canu emynau wrth fynd. Ar ôl mynd yn ôl i'n capel ni, bydden ni'n mwynhau te pnawn hyfryd ac yn cael eisteddfod wedyn. Ein gwobrau oedd ychydig o ddarnau arian mewn cwdyn bach cotwm, wedi'u gwneud â llaw, ac â rhuban i'w roi o gwmpas eich gwddf. Dyna gyffrous oedd gweld faint o'r rhain roedden ni'n gallu eu hennill! Gallwch ddychmygu bod y gystadleuaeth yn frwd iawn!

Fe es i yn fy mlaen o'r ysgol ramadeg i'r Coleg Normal, Bangor a gwneud cwrs hyfforddi athrawon o 1963 tan 1966. Ces amser da iawn a gwneud sawl ffrind am oes. Fy swydd gyntaf, a fy unig swydd, oedd mewn ysgol gynradd yn Ellesmere Port. Roedd 47 o ddisgyblion yn fy nosbarth cyntaf! Am waith i athrawes newydd ei hyfforddi! Ond, fe ddes i drwyddi ac roeddwn i am wneud rhywbeth arbennig iddyn nhw. Doedden nhw erioed wedi cael trip ysgol o'r blaen ac fe ges i'r syniad o fynd â nhw i sw Caer. Gofynnais am ganiatâd gan y Pennaeth, a ddywedodd nad oedd yn gallu sbario athro arall i ddod gyda mi. Ar y pryd, roeddwn i'n canlyn Hugh, felly fe ofynnais i a fyddai o'n gallu dod gyda mi. Cytunodd y Pennaeth, ac felly trefnwyd y cyfan. Fyddai hynny byth yn cael ei ganiatáu heddi, na fyddai?! Wel, fe gawson ni ddiwrnod da! Daeth Hugh i'r ysgol ar ôl cinio ac i ffwrdd â ni mewn bws i'r sw. Am y tro cyntaf yn ei fywyd, daeth Hugh yn 'Syr' am y dydd! Fe gawson ni amser gwych, ond blinedig iawn, a phawb wedi mwynhau. Er dwi ddim yn

meddwl bod Hugh erioed wedi ystyried rhoi'r gorau i ffermio i fod yn athro!

Yn 1970, priododd Hugh a fi ac fe ddes i'n wraig i ffermwr ac ymgartrefu ym Mhant Glas Ucha, Bontuchel, ar fferm laeth. Roeddwn i'n mwynhau'r bywyd gwledig ac yn helpu Hugh gymaint ag y gallwn i – magu lloeau yn bennaf ac yn gofalu am y gwaith papur a'r ffurflenni TAW a threth. Cawson ni ein bendithio â dau blentyn, Osian a Rhian yn 1973 ac 1978. Roeddwn hefyd yn aelodau o gangen Llanynys o Sefydliad y Merched, yn Rhewl, a Merched y Wawr ym Montuchel. Roeddwn i'n un o lywodraethwyr Ysgol Cyffylliog a dechreuais i ddosbarth meithrin yn festri capel Cyffylliog gyda chyd-weithiwr arall. Bues i'n athrawes ysgol Sul ym Montuchel am 25 awr ac yn gwneud ychydig o waith llanw fel athrawes yn lleol.

Yn 1980 symudodd fy rhieni o Dde Cymru i Abergele, a oedd yn beth da er mwyn iddyn nhw fod yn rhan o blentyndod eu hwyrion. Yn 1995, ces gynnig swydd ran amser fel Dirprwy Gofrestrydd yn Swyddfa Gofrestru Rhuthun, ac fe wnes i hyn am 15 mlynedd. Roedden ni hefyd yn gweithio ar ran swyddfeydd Dinbych a Llangollen hefyd. Roedd cofrestru priodasau yn waith pleserus ac amrywiol iawn, gan fod pob priodas yn hollol wahanol. Roedden ni'n ffodus bod gennym ddewis da o leoliadau ar gyfer seremonïau sifil heblaw am neuadd y dref a chapeli. Roedd cofrestru genedigaethau a marwolaethau hefyd yn rhan o'r gwaith.

Yn 2000, ar ôl 30 mlynedd o ffermio gyda'n gilydd, fe benderfynon ni roi'r gorau iddi, gan nad oedd Osian am ffermio. Roedd wedi graddio o Brifysgol Caerdydd, ac ar ôl teithio o gwmpas y byd am flwyddyn, roedd yn barod i chwilio am swydd a chafodd un yn Newcastle-upon-Tyne. Felly dyma fwrw iddi a threfnu sêl fferm. Gwerthwyd yr holl offer a'r holl anifeiliaid ar y fferm mewn un diwrnod. Ar ôl hyn symudon ni i Landyrnog i fyw gan ymgartrefu yn Hyfrydle ac rydyn ni wedi bod yn hapus iawn yno. Daethon ni'n aelodau o Gapel y Dyffryn, gan ddod i adnabod ffrindiau newydd a mwynhau bod yn rhan o gymuned agos iawn. Cafodd Hugh swydd gyda busnes ffrind yn Rhuthun yn gwerthu offer glanhau. Mwynhaodd hynny'n fawr a'r oriau yn gallach o lawer nag oriau diwrnod gwaith ffermwr! Buodd Hugh wrthi am 13 blynedd!

Fe ddes i'n aelod o Ferched y Wawr eto yng nghangen Dinbych a dwi hefyd ar bwyllgor Mencap yn Ninbych. Gyda'n gilydd, mae Hugh a fi'n gwirfoddoli yn siop Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd.



*Diolch i Veronica a Hugh am awgrymu gosod sedd ger croesffordd Celynog – mae wedi bod yn fan poblogaidd i gymryd seibiant.*

Yn 2012, priododd Osian â Sarah ac maen nhw wedi adeiladu tŷ ger Morpeth, Northumberland. Erbyn hyn mae gennym ni ŵyr ac wyres hyfryd, Kate sy'n 12 a Fred sy'n 10. Mae ein merch, Rhian, wedi setlo yn

## Veronica Roberts: parhad

Saltney gyda'i phartner, Caroline, ac rydyn ni'n eu gweld nhw'n eitha aml.


Ers i ni ddod i fyw i Landyrnog rydyn ni wedi cael mwy o amser i deithio. Roedden ni yn yr Unol Daleithiau yn 2001 pan ddigwyddodd 9/11 yn Efrog Newydd. Yn ffodus, roedden ni'n aros gyda pherthnasau ar y pryd, ond fe ganslon ni ail ran ein taith i Efrog Newydd a Washington. Roedd bod yn y wlad yr adeg honno yn deimlad anesmwyth iawn, heb wybod beth oedd yn mynd i ddigwydd nesa. Ers hynny rydyn ni wedi bod i Ganada, i Tsieina, a sawl gwaith i Awstria – rydyn ni wrth ein boddau yn fan'na – ac i sawl lle arall yn Ewrop hefyd.

Rydyn ni'n ffodus iawn ein bod ni'n byw yn Nyffryn Clwyd, ran hardd iawn o Gymru, a ble mae'r gymuned yn gofalu am ei gilydd. Mae deffro bob bore i ddiwrnod newydd arall yn bleser pur.

## Undeb y Mamau

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn 2026, blwyddyn hynod o bwysig wrth i Undeb y Mamau ddathlu ei ben-blwydd yn 150. Mae'n anodd dychmygu bod y mudiad byd-eang hwn wedi dechrau gyda gweledigaeth un fenyw, Mary Sumner. Ers y cyfarfod cyntaf hwnnw yn Old Alresford ym 1876, mae Undeb y Mamau wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau miliynau o bobl ledled y byd. Ni allai Mary Sumner fod wedi rhagweld y byddai'r hadau a blannodd hi yn tyfu'n fudiad o 4 miliwn o aelodau heddiw, mewn 83 o wledydd, yn rhoi eu ffydd ar waith i feithrin perthynas iach mewn teuluoedd a chymunedau ac i ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol.

Mae byw yn ôl ei gweledigaeth hi yn her enfawr, ond rydym yn parhau i wneud yr hyn a allwn ni, hyd yn oed mewn ffyrdd bychain, yma yn Llandyrnog.




# Capel y Dyffryn

***Y Gymdeithas*** Nos Lun, 26 Ionawr cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni Richard a Iona fu'n adrodd hanes eu taith i Seland Newydd yn ddiweddar.  Diolchwyd gan Tudor.

Nos Lun 9 Chwefror Cyflwynodd Gwilym, Llywydd, Huw Foulkes Fferm Pentrefelin fu'n adrodd hanes datblygiad Pentrefelin sydd yn fferm weithredol ac yn ficro-laethdy buwch a llo erbyn hyn. Noson ddiddorol dros ben. Diolchwyd gan Rich.

***Profedigaeth*** Cydymdeimlwn â theulu Rhydonnen, Buddug wedi colli ei brawd, Selwyn.

***Trip Ysgol Sul*** Ar y Sul ola ym mis Chwefror, aeth plant a rhieni Ysgol Sul y Dyffryn ar drip i Theatr Clwyd yr Wyddgrug i weld perfformiad arbennig o'r llyfr 'Taclus'. Roedd hwn yn dod â phopeth roedd y plant wedi bod yn ei astudio yn yr Ysgol Sul yn fyw iawn iddyn nhw. Roedd y perfformiad yn sôn am ein planed ni a sut y dylwn ni i gyd ei barchu a gofalu amdano ar hyd ein hoes. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r hufen iâ hanner amser a'r perfformiad byw. Diolch i Glesni am drefnu popeth, a'r rhieni am eu cefnogaeth.

***Gwasanaethau***

| | | |
|---|---|---|
| 01/03 | 9.45 | John Hugh Roberts |
| 08/03 | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 15/03 | 9.45 | Debbie Roberts |
| 22/03 | 11.00 | Parch. Gerwyn Roberts |
| 29/03 | 10.00 | Anwen Davies |





# Hanesion Hazel

O’r diwedd, bydd gwaith y gaeaf yn mynd yn haws wrth i fis Mawrth gyrraedd. Mae gofalu am unrhyw anifail drwy’r gaeaf yn waith caled ac mae angen i chi fod yn barod i fod allan ym mhob tywydd gan fod angen bwydo a charthu pob un ohonyn nhw o hyd. Ar foreau tywyll, mae fy ieir yn edrych arna i fel pe baen nhw’n dweud, ‘pam wyt ti’n ein gadael ni allan, mae hi’n nos’. Ond wrth iddi oleuo, dwi’n clywed y ceiliogod yn canu ac mae’r merched yn aros yn eiddgar i gael mynd allan.

Misoedd main yw mis Chwefror a mis Mawrth – does dim glaswellt i Bob y Cob ac mae’n sefyll wrth y giât yn aros am y sach wair nesaf. Weithiau pan fydda i’n dod ag o i mewn, mae’n fy nhynnu at ychydig o laswellt sy’n tyfu yn y craciau wrth y giât; dim ond rhyw dwffyn bach ond rwy’n siŵr ei fod yn treulio’r diwrnod cyfan yn syllu arno o ochr y cae, yn aros am y cyfle pan nad ydw i’n canolbwyntio i fy llusgo i draw ato. Mae’n tynnu’r glaswellt gyda’r gwreiddiau a’r pridd ynghlwm wrtho, yn ei ysgwyd drosof i gyd ac yn bwyta’r darn bach hwnnw o wyrddni. Mae’n gyfnod drud o’r flwyddyn ac rwy’n edrych ymlaen at pan fydd Bob yn gallu treulio mwy o amser allan mewn cae sych.

Mae mwd yn mynd i bobman; mae’r cŵn yn dod ag o i mewn i’r tŷ er gwaethaf nifer o fatiau, rygiau a thywelion wrth y drws. Dwi ddim yn siŵr sut maen nhw’n ei wneud ond mae llwybr o olion pawennau mwdlyd bob amser yn rhedeg drwy’r tŷ at y llosgwr coed. A ble maen nhw’n penderfynu eistedd? Ar y gadair gyfforddus wrth y tân wrth gwrs, ond nid cyn sychu eu hunain ar ochr y soffa ar y ffordd heibio. Cofleidiwch y mwd, meddaf i – pan fydd gennych chi anifeiliaid, mae hyn yn rhan o fod yn berchen arnyn nhw yr adeg hon o’r flwyddyn. Rwy’n siŵr bod Bob yn dod o hyd i’r darn fwyaf mwdlyd o’i gae i rolio arno, mae’n troi drosodd a throsodd, yn neidio i fyny ac yn ysgwyd ei hun yn gyflym cyn mynd i lawr eto gan sicrhau ei fod wedi gorchuddio ei hun yn llwyr â mwd.



Wrth i fis Mawrth fynd yn ei flaen, bydd y caeau’n dechrau sychu ac ychydig o laswellt yn dod i’r golwg. Gyda rhywfaint o gynhesrwydd bydd y glaswellt yn dechrau tyfu gan gyflwyno perygl arall i geffylau – *laminitis*. Mae *laminitis* yn gyflwr sy’n achosi llid ar y carnau a gan nad oes unman i’r chwydd hwn fynd, gall fod yn boenus iawn. Dychmygwch abses o dan eich ewin – aw! Ac yna rhaid i chi gerdded ar yr ewin hwnnw – aw eto! Mae angen i berchnogion ceffylau fod yn wyliadwrus pan ddaw glaswellt y gwanwyn drwodd. Felly daw’r ffens drydan allan ac yn sydyn rwy’n cwyno bod gormod o laswellt. Dydyn ni byth yn hapus!

Mae bod yn berchen ar anifeiliaid yn werth chweil ac mae’r cariad a’r cwmni maen nhw’n eu rhoi i ni yn amhrisiadwy. Gall gweryru tawel pan fydda i’n teimlo’n isel a thrwyn meddal yn rhoi pwt i chi yn siŵr o godi eich calon. Mae anifeiliaid yn codi ein hysbryd, yn gallu gostwng pwysedd gwaed, lleihau straen a phryder a rhoi hwb i’ch iechyd meddwl. Felly, pan fydda i’n cerdded yn llafurus i lawr y cae trwy fwd gludiog, yn codi baw cŵn yn ddiddiwedd neu’n mynd â nhw am dro yn y glaw – cofiwch yr hyn maen nhw’n ei wneud i ni a’r mwynhad maen nhw’n ei roi.

Hazel

# Llan Llanast

Yn ein Llan Llanast cyntaf yn 2026 buom yn dysgu am Fedydd. Pan fyddwn ni'n cael ein bedyddio, rydyn ni'n dod yn rhan o deulu Duw – felly mae gennym ni ddau deulu! Gwnaethon ni addurno croesau, gwneud dalwyr canhwyllau bychain, a chreu ffenestri gwydr lliw. Gwnaethon ni hefyd addurno cannwyll fawr. Eglurodd y Parch. Juliet fod cannwyll fawr mewn bedydd bob amser, a bod pob un sy'n cael ei fedyddio/bedyddio'n cael cannwyll sy'n cael ei chynnau o'r un fawr. Yna fe aeth y Parch. Juliet ati i fedyddio'r holl deganau roedd y plant wedi dod gyda nhw – a dwi'n meddwl ein bod ni i gyd yn cytuno mai dyna oedd y rhan orau!




Roedd hi'n hyfryd croesawu rhai teuluoedd newydd a gobeithio y byddan nhw'n dod yn ôl eto. Bydd ein sesiwn nesaf bnawn dydd Sul, 8 Mawrth am 3.30 yn Neuadd y Pentref, ac mae croeso cynnes i bawb.

---



*Ydych chi'n cofio'r swyddfa post yma? Tynnwyd y llun rywbryd yn yr 1970au.*

# Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Chwefror, y siaradwraig wadd oedd Ewa Turczanska, un o sefydlwyr a threfnwyr Oergell Gymunedol Eirianfa yn Ninbych.

Sefydlwyd Oergell Gymunedol Eirianfa ym mis Tachwedd 2023 er mwyn lleihau gwastraff bwyd. Mae tua ugain o wirfoddolwyr o'r ardal yn ei rhedeg, ac yn casglu bwyd dros ben gan archfarchnadoedd, cynhyrchwyr a'r rhai sy'n tyfu bwydydd yn lleol i'w roi am ddim i'r rhai sy'n mynychu'r oergell. Mae'r oergell ar agor ar fore dydd Llun o 10.30 tan ganol dydd, ac ar fore dydd Iau o 9.30 tan 11 y bore.




Bydd y cyfarfod nesa bnawn dydd Mercher, 18 Mawrth, yn neuadd y pentre pan fydd plant Ysgol Bryn Clwyd yn dod i'n diddanu. Croeso cynnes i aelodau newydd.

# Y Clwb Garddio

Yng nghyfarfod mis Chwefror roedd hi'n braf mwynhau lliwiau niferus dahlias gydag Allan Evans. Soniodd am brynu cloron, eu plannu, cymryd toriadau, eu tyfu ac wedyn eu dangos. Mae dahlias yn dod o Fecsico ac America ac yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Maen nhw'n enwog am eu blodau trawiadol ac amrywiol, sy'n blodeuo o ganol haf nes iddi ddechrau barugo. Aeth Allan â ni ar daith o ble y gallwn ni brynu'r cloron hyn…

Halls of Heddon (www.hallsofheddon.com)

Sarah Raven (www.sarahraven.com)

… hyd at eu dangos nhw yn y Sioe Frenhinol. Daeth ag ychydig o gloron sbâr i'w rhoi i'r aelodau i roi cynnig ar eu tyfu, gan godi £58.50 a fydd yn cael ei rhoi i'r elusen Prostate Cancer UK.

Cafwyd paned a sgwrs wedyn am sut hwyl rydyn ni'n ei gael ar dyfu pys pêr ar ôl eu hau nhw fis diwetha. Roedd rhai'n llwyddiannus, ac eraill wedi methu, ond peth felly ydy garddio.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fawrth, 10 Mawrth am 7 o'r gloch yn ystafell isaf neuadd y pentref. Bydd Iwan Edwards (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru) yn sôn am arddio ar gyfer bywyd gwyllt ac am ei waith fel swyddog addysg a chyfathrebu. Bydd hefyd yn sôn am ei ran yn y rhaglen deledu *Garddio a Mwy* sy'n trafod natur, tyfu bwyd ac yn ymweld â gerddi yng Nghymru.




Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb, dewch i'r cyfarfod neu anfonwch e-bost at LlandyrnogGardeners@outlook.com

# Grŵp Cyfeillgarwch

Ym mis Ionawr, aeth y grŵp i Wrecsam i fowlio deg.



Ym mis Chwefror buon ni i'r pantomeim yn Rhuthun ac i'r British Ironworks ger Croesoswallt.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn dydd Mawrth, 3 Mawrth am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco, pan fyddwn yn cael sgwrs gan Gymdeithas Gwenynwyr De Clwyd. Yn ddiweddarach yn y mis byddwn yn ymweld â Chastell y Waun.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Rysáit

**CACEN SINSIR**
Popty 180 °C / Ffan 160 °C / Nwy 4
Paratowch dun crwn 7” (18cm) ar draws, 3” (7cm) o ddyfnder – wedi’i iro a’i leinio â phapur pobi.

CYNHWYSION
225g blawd codi
1 llwy de soda pobi
1 llwy fwrdd sinsir mâl
1 llwy de sinamon mâl
1 llwy de sbeis cymysg mâl
115g menyn wedi’i dorri’n ddarnau
115g siwgr brown meddwl neu *muscovado*
115g triog melyn
115g triog du
250 ml llefrith (braster llawn)
85g sinsir grisialog – *stem ginger* (wedi’i ddraenio a’i gratio)

DULL
Rhowch y blawd, y soda pobi a’r sbeisys mâl mewn powlen gymysgu. Rhwbiwch y menyn i mewn nes y bydd yn debyg i friwsion bara mân.
Mewn sosban, toddwch y siwgr, y triog melyn a’r triog du, a’r llefrith, a’u cynhesu’n araf i ddechrau, gan eu troi nes bydd y siwgr wedi toddi. Wedyn cynyddwch y gwres nes bod y cymysgedd bron iawn â berwi.
Ychwanegwch y sinsir grisialog at y blawd yn y bowlen gymysgu, wedyn ychwanegwch y cymysgedd trioglyd, gan droi â llwy bren nes bod y cyfan wedi’u cymysgu’n llwyr.
Ychwanegwch wy at y cymysgedd a’i guro nes bydd yn debyg i gytew crempog brown trwchus.
Tywalltwch y cymysgedd i’r tun a’i bobi am 50–60 munud nes y bydd wedi coginio (rhowch sgiwer yng nghanol y gacen, bydd yn dod allan yn lân os yw’n barod).
Gadewch y gacen yn y tun i oeri’n gyfan gwbl cyn ei thynnu allan (gallai hyn gymryd ychydig oriau). Gallwch ei rhewi hefyd ac fe ddylai gadw yn y rhewgell am fis.

# Dwylo Diogel

Llongyfarchiadau i Ellen Newcombe o Glan y Wern Bennett ar ei menter newydd, sef agor ‘Gwesty Ysbaid Dwylo Diogel’ yn yr Hen Ficerdy, Trefnant. Mae hyn yn ychwanegol at Safe Hands – Dwylo Diogel. Mae’n darparu lle diogel a chymorth sydd wedi’i ddylunio’n benodol i’r unigolyn, ac yn rhoi cymorth i fyw’n annibynnol.

Mae’r gwesty yn cynnwys ystafell weithgareddau fawr, lolfa, ystafell fwyta, cegin therapiwtig, ystafell golchi dillad, a saith ystafell wely (tri *en suite*). I ddechrau, mae wedi’i gofrestru i gymryd pedwar unigolyn. Mae’n adeilad rhestredig Gradd II ac mewn tiroedd helaeth a diogel.

Pob dymuniad da, Ellen.



*Y gwestai arbennig adeg yr agoriad swyddogol oedd yr actor, Rhys Ifans*

## Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor Cymuned

**Adroddiad ysgrifenedig y Swyddog Heddlu Cynorthwyol**

Roedd digwyddiadau ynddo'n cynnwys:

- Ceir wedi'u parcio'n anystyriol ym maes parcio'r clwb pêl-droed – wedi rhoi cyngor i'r perchnogion
- Ymchwilio i alwadau ffôn a oedd yn aflonyddu
- Car wedi'i gipio oherwydd trwydded anghywir (dros dro), wedi'i wysio i'r llys.

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

Penderfynodd y Cyngor gyfrannu at y canlynol:

- Brownies £100
- Clwb Garddio £100
- Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn £50.00
- Artist preswyl £50.00

- Mabwysiadodd y Cyngor ei gynllun busnes newydd sy'n cynnwys y cynllun bioamrywiaeth ac mae wedi'i gyhoeddi ar y wefan. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau am ychydig flynyddoedd a bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Mae project Cae Nant yn dod yn ei flaen – mae'r offer wedi'u harchebu a bydd cynllun gwaith yn dilyn. Penderfynwyd edrych ar osod ffens i wahanu'r ardal chwarae o'r maes parcio – mae'r dewisiadau'n cynnwys ffens bren neu o blastig wedi'i ailgylchu.
- Mae'r Cynghorydd Wright wedi penderfynu ildio'i sedd ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth i'w hardal, a dymunwn yn dda iddi. Penderfynwyd dechrau'r broses o gyfethol i gael cynghorydd yn ei lle.
- Cafwyd cadarnhad mai cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych yw'r ffens rhwng 32 Maes Clwyd a Pharc Ty'n Llan, a bod y ffordd rhwng Celynog a'r Waen wedi'i chynnwys yn rhaglen gyfalaf Sir Ddinbych i roi wyneb newydd ar ffyrdd.

TY CEFFYL BACH
Facebook 07768 331488 Instagram
www.tyceffylbach.co.uk
info@tyceffylbach.co.uk
4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- Open 11am–4pm, Thu– Sat



Mike Neumann
Printers Ltd

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk